PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# PRIF WEITHREDWR

## Pecyn Ymgeisio

childreninwales.org.uk

## Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Brif Weithredwr nesaf Plant yng Nghymru

**Cyflwyniad**

Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau, yn unigolion a sefydliadau o bob sector, sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

Mae Plant yng Nghymru

- yn hybu hawliau plant a phobl ifanc
- yn rhoi llais i blant a phobl ifanc
- yn gweithio i greu llais unedig i'r sector
- yn ffurfio polisi ac yn rhannu arfer gorau er mwyn datblygu'r gweithlu.

Rydym yn arwain y gwaith o sicrhau bod llais torfol plant Cymru a'r rhai sy'n eu cefnogi yn ganolog i bolisïau, gwasanaethau a chyflwyno. Rydym yn ymgyrchu, yn datblygu capasiti, yn cydweithio ac yn herio'r sector.

Ni yw'r prif gorff sy'n cyfathrebu rhwng llunwyr polisi'r llywodraeth ganolog, y sefydliadau sy'n gyfrifol am roi polisi ar waith, a phlant a phobl ifanc.

Rydym ni'n chwilio am arweinydd deinamig, angerddol, a fydd yn adeiladu ar waith y gorffennol, gan gynyddu ein heffaith a'n dylanwad er lles holl blant Cymru.

## Gwybodaeth am Plant yng Nghymru – ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth

### *Creu Cymru lle mae holl hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu gwireddu.*

Children in Wales – Plant yng Nghymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol o aelodau ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodau o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/nid-er-elw ac annibynnol.

Bydd ein gwaith wedi'i seilio ar ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â'n haelodau trwy wneud y canlynol:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o'r gymdeithas yng Nghymru.
- Herio anghydraddoldeb a hybu tegwch i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru.
- Defnyddio lleisiau cyfunedig plant a phobl ifanc a'r oedolion sy'n rhan o'n haelodaeth i herio llunwyr penderfyniadau ac eiriol o blaid newid.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r llywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer arloesol ledled Cymru.
- Eiriol o blaid y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r gweithlu plant proffesiynol ar draws sectorau.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i ledaenu.

Mae Plant yng Nghymru yn cyflawni nifer o weithgareddau er mwyn cyrraedd y nodau hyn. Yn eu plith mae:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw

- Gwaith ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc trwy ein prosiect Cymru Ifanc
- Ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae ganddo gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel corff o aelodau rydym ni'n sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, canfod pryderon cyffredin, ac annog gweithgaredd amlddisgyblaeth. Gall yr aelodau fod yn rhai corfforaethol neu unigol, a deuant o ystod eang o ddiddordebau, megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol, neu grwpiau hunan-gymorth.

Ariannir ein gwaith trwy grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill, ac incwm a gynhyrchwn ein hunain.

Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, porwch ar ein gwefan:
www.childreninwales.org.uk/

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

CYMRU IFANC
YOUNG WALES

## Gwybodaeth am y rôl

Lluniwyd yr wybodaeth sy'n dilyn i roi darlun llawnach i chi o ofynion y swydd. Pwrpas y disgrifiad swydd yw crynhoi'n glir gwmpas a chyfrifoldebau'r swydd, a dylid ei ddarllen yn drylwyr. Diben y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i ymgeiswyr fedru bodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hyn yn ofalus ac yn rhoi sylw i'r meini prawf a geir yn y fanyleb person yn eich cais.**

## Prif Weithredwr
## Disgrifiad Swydd

**Diben a chyd-destun**

Ers i Plant yng Nghymru ddod i fodolaeth bu llawer o ddatblygiadau ym maes polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae ymgorffori CCUHP yn rhannol, sefydlu'r Comisiynydd Plant a datblygu'r Senedd Ieuenctid wedi ychwanegu at nifer y sefydliadau sy'n hybu llais pobl ifanc. Ochr yn ochr â hynny, mae anghenion cynyddol plant a phobl ifanc yn ein cymdeithas ar adeg yr argyfwng costau byw ac ôl-effeithiau'r pandemig yn golygu bod y gwaith yn cynyddu, a bod pob rhan o'r sector o dan bwysau cynyddol. Bydd ein Prif Weithredwr nesaf yn arwain, yn llunio ac yn canolbwyntio ein hegni a'n gweithgaredd er mwyn gwella'r cydlynu ar draws y sector a mwyafu'r effaith i blant, gan arwain drwy esiampl bob amser trwy ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau.

**Prif gyfrifoldebau**

### Arweinyddiaeth sefydliadol

- Rhoi arweiniad effeithiol fydd yn ysbrydoli i Plant yng Nghymru, gan sicrhau bod potensial staff ac Aelodau (fel unigolion a sefydliad) yn cael ei ddatblygu a'i fwyafu
- Cynrychioli plant a phobl ifanc, y sector a'r sefydliad mewn trafodaethau polisi gyda Llywodraeth Cymru, y Senedd a dylanwadwyr a llunwyr penderfyniadau eraill
- Adeiladu rhwydweithiau gyda'r sefydliadau sy'n Aelodau a rhannau eraill o'r sector plant a phobl ifanc er mwyn hwyluso llais cryf, unedig
- Meithrin datblygiad cysylltiadau rhwng Aelodau a staff ledled Cymru
- Datblygu'r strategaeth ariannu i sicrhau bod Plant yng Nghymru yn derbyn adnoddau priodol i gyflawni eu cynlluniau strategol
- Hybu datblygiad parhaus a gweithrediad y Polisi Iaith Gymraeg i Plant yng Nghymru
- Hybu datblygiad parhaus a gweithrediad y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Plant yng Nghymru
- Sicrhau bod gan Plant yng Nghymru bolisïau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer pob gweithgaredd perthnasol, gan gynnwys diogelu a diogelu data

## Llywodraethu a strategaeth

- Gyda'r Bwrdd, datblygu cynlluniau strategol uchelgeisiol i gyflawni gweledigaeth a chenhadaeth y sefydliad
- Arwain gweithrediad strategaeth Plant yng Nghymru, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ganolog i bob trafodaeth, penderfyniad a gweithgaredd
- Cefnogi'r Cadeirydd a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod Plant yng Nghymru yn cael ei lywodraethu'n gadarn ac yn briodol, gan gynnwys paratoi adroddiadau o safon uchel a gwybodaeth berthnasol sy'n golygu bod modd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gyflawni ei rwymedigaethau
- Sicrhau bod gweddill y sefydliad yn deall llywodraethu da a sut mae'n berthnasol iddyn nhw
- Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad yn Plant yng Nghymru
- Rheoli materion ariannol yr elusen yn gyfrifol, gan sicrhau dealltwriaeth o reolaeth ariannol dda ar draws y sefydliad
- Gweithredu fel Ysgrifennydd Cwmni Plant yng Nghymru

## Eiriolaeth, dylanwadu a datblygu symudiad

- Bod yn llysgennad gweladwy ac yn llefarydd i Plant yng Nghymru, gan ddatblygu a chynnal cysylltiadau effeithiol, lefel uchel â'r llywodraeth a'r cyfryngau
- Hyrwyddo mabwysiadu a chyflwyno CCUHP ar draws sefydliadau yng Nghymru
- Bod yn eiriolydd credadwy ac egnïol dros blant a phobl ifanc o gefndir difreintiedig, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed lle mae hynny'n bwysig
- Creu, cynnal a datblygu rhwydweithiau gyda sefydliadau ieuenctid ledled Cymru ac yn ehangach, fel sy'n briodol, i gyflawni diben yr elusen
- Sicrhau bod Plant yng Nghymru yn cael ei gynrychioli'n effeithiol ac yn gynrychiolydd effeithiol ar y grwpiau gwaith, polisi a phroffesiynol allweddol

## Cynhyrchu incwm a phartneriaethau

- Arwain gweithgareddau cynhyrchu incwm, gan ehangu ffynonellau cyllid ac adolygu meysydd gwaith y sefydliad

## Manyleb Person

### Gofynion allweddol

- Angerdd amlwg dros wella bywydau plant a phobl ifanc
- Arweinydd pobl effeithiol, sy'n grymuso
- Profiad gweithredol mewn sefydliad o faint a chymhlethdod cyfatebol
- Profiad o gyflwyno rhaglenni gwaith a deall eu heffaith
- Profiad o ddatblygu a gweithio'n effeithiol mewn rhwydweithiau yn y sector plant
- Hanes amlwg o lwyddo wrth ddatblygu busnes neu godi arian
- Profiad o ddylanwadu ar y llywodraeth, sefydliadau cymdeithas sifil a busnesau, a chydweithio â nhw, gan adeiladu ar werthoedd a rennir ac amcanion effaith
- Cyfathrebydd rhagorol, llawn empathi, sy'n gallu meithrin perthynas â phobl o ystod eang o gefndiroedd, sydd â diddordebau amrywiol, a bod yn gredadwy yn eu plith
- Profiad o reolaeth ariannol a busnes, gan gynnwys rhagfynegi, cyllidebu a rheoli a chynllunio sefydliadol
- Profiad o weithio gyda llywodraethu da a'i gefnogi

### Nodweddion a galluoedd

- Cyfathrebydd clir sy'n gallu cyfleu materion cymhleth o fewn a'r tu allan i'r sefydliad, gan gynnwys cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Ymrwymiad dwfn i blant a phobl ifanc a chred yn eu potensial
- Dealltwriaeth glir o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac ymrwymiad i'w hyrwyddo
- Hunangymhelliad a gallu i gadw agweddau emosiynol arweinyddiaeth dan reolaeth
- Arddangos arweinyddiaeth dosturiol, ynghyd â sgiliau rheoli tîm cryf
- Entrepreneuraidd, rhagweithiol, hunangymhellol a chreadigol
- Cydweithiwr â sgiliau rhyngbersonol hynod ddatblygedig
- Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, polisi a sut mae'r rhain yn cael eu datblygu, o ran eu heffaith ar blant a phobl ifanc, yn arbennig yng Nghymru
- Mae rhuglder llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg yn ddymunol a bydd gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg ymrwymo i ddysgu'r iaith i safon gytûn o fewn graddfa amser penodol.  Mae Plant yng Nghymru yn fudiad dwy-ieithog a dylai pob ymgeisydd allu dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru.

## Gwybodaeth Bellach

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru |
| **Yn Adrodd i:** | Cadeirydd Plant yng Nghymru a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr |
| **Lleoliad:** | Caerdydd, gyda theithio a phresenoldeb ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig ehangach. (Rydym yn gweithredu polisi gweithio ystwyth.) Mae ein swyddfeydd yn 21 Plas Windsor, Caerdydd CF10 3BY. |
| **Oriau Gwaith:** | 35 awr yr wythnos (amser llawn) |
| **Contract:** | Parhaol |
| **Cyflog:** | Hyd at £80,000 y flwyddyn |
| **Dull Talu:** | Telir cyflogau'n uniongyrchol i'r cyfrif banc a enwebwyd gan yr aelod o staff ar y 15fed o bob mis |
| **Buddion:** | 25 diwrnod o wyliau y flwyddyn (yn codi i 30 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth) plws diwrnodau statudol ychwanegol a gwyliau cyhoeddus, mynediad at Raglen Cymorth i Gyflogeion (EAP) 24/7 |
| **Pensiwn:** | Caiff cyflogeion Plant yng Nghymru eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn y Gweithle, ond gallwch ddewis optio allan. |

Rydym yn gosod gwerth ar y gwahaniaethau a ddaw yn sgîl gweithlu amrywiol, ac rydym yn ymroddedig i fod yn gynhwysol, ac i gyflogi a chefnogi gweithlu amrywiol. Mae ein gweithdrefnau dethol yn sicrhau bod pobl yn cael eu trin ar sail eu rhinweddau, eu profiad, eu sgiliau a'u galluoedd perthnasol, ac nad oes unrhyw unigolyn yn cael triniaeth sy'n fwy neu'n llai ffafriol. Gallwn gynnig hyblygrwydd trwy'r broses gyfweld, ac rydym yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer anghenion pob ymgeisydd. Yn unol â'n polisïau a'n gweithdrefnau, a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, mae swydd y Prif Weithredol yn amodol ar wiriadau cefndir boddhaol, sy'n cynnwys geirdaon cyflogaeth, gwiriad DBS Manwl a gwiriadau eraill ar-lein.

## Sut mae ymgeisio

Gofynnir i chi anfon CV ynghyd â datganiad cefnogi (heb fod yn fwy na 2 dudalen A4), a ffurflen gais a ffurflen cyfle cyfartal wedi'u llenwi. Gofalwch eich bod wedi nodi unrhyw ddyddiadau pan na fyddwch ar gael, neu lle gallai'r amserlen recriwtio beri anhawster i chi.

Carem eich sicrhau y bydd eich ymatebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol, ac y bydd gwybodaeth a roddwch ar y ffurflen cyfle cyfartal yn cael ei chadw ar wahân i'ch cofnod ymgeisydd, heb fod yn rhan o unrhyw gais a wnewch, ac na fydd y panel recriwtio byth yn gweld ymatebion unigol i'r holiadur.

Dylid cyflwyno ceisiadau ar ffurf Word a'u hanfon i vacancies@childreninwales.org.uk. I arbed costau, ni allwn gydnabod derbyn eich cais ond trwy e-bost.

### Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau: Hanner Nos, ddydd Sul, 26 Chwefror 2023

Cynhelir tair sesiwn o gyfweliadau yn ystod y cyfnod 27 Chwefror – 10 Mawrth. Cynhelir un o'r sesiynau ddydd Sadwrn, 11 Mawrth 2023 i hwyluso cynnwys pobl ifanc yn y broses.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau penodol, neu os hoffech chi gael trafodaeth anffurfiol am y cyfle, rhowch wybod i ni trwy vacancies@childreninwales.org.uk a byddwn ni mewn cysylltiad cyn gynted â phosibl.

Bydd yr wybodaeth a roddir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn, ac yna'n cael ei dinistrio heb ei datgelu.

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**www.childreninwales.org.uk**